

Protocol Pontio Amlasiantaeth Gwent Gyfan i Bobl Ifanc ag Anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r protocol hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r asiantaethau sydd ynghlwm â chynllunio'r cyfnod pontio tuag at ddod yn oedolyn, a'i gydlynu, ar gyfer pobl ifanc ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol sy'n byw yn ardal Gwent gyfan. Datblygwyd y protocol fel rhan o brosiect amlasiantaeth a sefydlwyd i wella'r broses o gynllunio ar gyfer y cyfnod pontio yn ardal Gwent.

Gweledigaeth

Fe fydd pobl ifanc ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth wedi ei gynllunio a'i gydlynu'n dda gyda'r broses o gynllunio ar gyfer y cyfnod pontio at ddod yn oedolion.

Egwyddorion

- Dylai pobl ifanc fod wrth galon y broses o gynllunio ar gyfer y cyfnod pontio.
- Dylai pobl ifanc a'u rhieni a'u gofalwyr chwarae rhan lawn.
- Nid cyfres o asesiadau ac adolygiadau yw'r broses bontio. Mae'n broses barhaus sy'n cael ei chynorthwyo gan benderfyniadau clir, y cytunir arnynt, ar adegau pwysig.
- Fe fydd pob asiantaeth yn cyfrannu at ddatblygiad cynllun pontio'r unigolyn ifanc fel y nodwyd yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau cenedlaethol.
- Mae gwaith partneriaeth effeithiol yn hanfodol fel bod taith pob unigolyn ifanc at fod yn oedolyn yn cael ei chynllunio a'i chydlynu'n dda.
- Bydd pob asiantaeth yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth am y protocol hwn yn cael ei dosbarthu ar bob lefel o fewn ei mudiad.
- Bydd y broses bontio'n hybu:
 - Annibyniaeth
 - Cynllunio integredig
 - Ymagwedd holistaidd
 - Dewis a rheolaeth

Ymrwymiad

Mae Protocol Pontio Amlasiantaeth Gwent Gyfan yn gofyn am ymrwymiad a chymorth ar lefel rheolaeth a gweithredol i sicrhau bod y weledigaeth ar gyfer y bobl ifanc yn cael ei gwireddu. Trwy lofnodi'r ddogfen hon, mae'r asiantaethau isod yn ymrwymo i weithredu'r protocol hwn yn ardal Gwent Gyfan.

Dr Andrew Goodall
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Mark Provis
Swyddog Addysg Plant
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Sue Evans
Cyfarwyddwr Ardal, Gofal Cymdeithasol, Tai ac
Iechyd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Sylvia Lindoe
Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Liz Majer
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Sandra Aspinall
Cyfarwyddwr Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Albert Heaney
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau
Cymdeithasol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Andrew Keep
Cyfarwyddwr Corfforaethol Dysgu Gydol Oes
Cyngor Sir Fynwy

Simon Burch
Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai
Cyngor Sir Fynwy

Brett Pugh
Prif Swyddog Addysg
Cyngor Dinas Casnewydd

Stewart Greenwell
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gofal a Chwsmeriaid
Cyngor Dinas Casnewydd

Graham Bowd
Cyfarwyddwr Rhanbarthol y De Ddwyrain
Careers Choice Dewis Gyrfa

Shirley Rogers
Cyfarwyddwr Rhanbarthol Canol y De
Careers Choice Dewis Gyrfa

1 Cyflwyniad

Mae'r protocol hwn yn disgrifio proses gynllunio amlasiantaeth i hwyluso'r cyfnod pontio i bobl ifanc ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol o'r ysgol at fod yn oedolyn.

- 1.1 Mae'r protocol pontio hwn yn cwrdd â'r safonau lleiaf ar gyfer cynlluniau pontio sy'n ofynnol yn ôl Cod Ymarfer AAA (Cymru) 2002, a'r camau gweithredu allweddol ychwanegol ar gyfer pontio a nodir yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (2005).
- 1.2 Mae CS Fynwy, CBS Torfaen, CBS Blaenau Gwent, CBS Caerffili, CD Casnewydd, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Gyrfa Cymru wedi cytuno ar y protocol hwn. Mae Adran 5 yn disgrifio'r broses bontio amlasiantaeth a fabwysiadwyd gan CS Fynwy, CBS Torfaen, CBS Blaenau Gwent a CD Casnewydd. Bydd CBS Caerffili'n defnyddio proses amlasiantaeth wahanol a ddisgrifir yn Atodiad 2.
- 1.3 Mae'r protocol hwn hefyd â chysylltiad at Bolisi Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ar gyfer y Cyfnod Pontio i Bobl Ifanc ag Anghenion Gofal Iechyd rhwng Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion o fewn Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

2 Cefndir

- 2.1 Yn hanesyddol, mae'r broses bontio'n aml wedi cynnwys nifer o asesiadau ar wahân a diffyg cyfathrebu a chydlynid rhwng yr asiantaethau gwahanol dan sylw. Nod y protocol hwn yw integreiddio prosesau asesu a chynllunio yr asiantaethau amrywiol yn un system sengl sy'n bodloni amrywiaeth o ofynion deddfwriaethol. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw: Deddf Plant 1989 a 2004, Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990, Deddf Addysg 1996, Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghoriadau a Chynrychiolaethau) 1986, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989.
- 2.2 Nodir y gofynion cyfreithiol presennol ar gyfer Cynllunio'r Cyfnod Pontio i bobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghod Ymarfer AAA (Cymru). Mae'r ddogfen hon yn gosod y cyfrifoldeb dros lunio cynllun pontio ym mlwyddyn 9 gyda Phennaeth yr ysgol, fel rhan o'r broses o adolygu datganiadau. Mae'r Cod Ymarfer hefyd yn nodi y dylid gwahodd Gyrfa Cymru, Gwasanaethau Cymdeithasol ac unrhyw weithwyr Iechyd proffesiynol perthnasol i ddod i adolygiad y datganiad ym mlwyddyn 9 ac i gyfrannu at y broses o gynllunio ar gyfer y cyfnod pontio. Gellir defnyddio proses adolygu'r ysgol hefyd i lunio cynlluniau pontio i bobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig sydd heb ddatganiad (er enghraifft pobl ifanc ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy).
- 2.3 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yn 2005. Roedd y ddogfen FfGC hon yn nodi camau gweithredu allweddol er mwyn

gwella'r broses o Gynllunio'r Cyfnod Pontio i bobl ifanc ag anableddau, erbyn 2015.

- 2.4 Os caiff camau gweithredu allweddol cyfnod pontio'r FfGC eu gweithredu'n llwyr, fe fydd angen i'r broses o gynllunio'r cyfnod pontio ymhob ardal awdurdod lleol gynnwys Grŵp Pontio Amlasiantaeth, Cynlluniau Pontio Amlasiantaeth a Chydlynwyr Pontio (a elwir hefyd yn Weithwyr Pontio Allweddol) ar gyfer pob unigolyn ifanc ag anableddau sydd eu hangen.

3 Y Broses Bontio a nodir yng Nghod Ymarfer AAA

- 3.1 Mae adolygu anghenion addysgol arbennig (AAA) unigolyn ifanc yn flynyddol yn broses. Mae rhan o'r broses yn golygu cynnal cyfarfod adolygu sy'n ofyniad statudol i ysgolion dan Ddeddf Addysg 1996. Mae'r broses adolygu'n berthnasol i bob unigolyn ifanc ag arnynt ddatganiad o AAA, a hefyd yn medru cael ei defnyddio gyda phobl ifanc ag AAA neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sydd heb ddatganiad (e.e. pobl ifanc ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy).
- 3.2 Yn ystod y cyfarfod adolygu blynyddol cyntaf ym Mlwyddyn 9 dylid creu Cynllun Pontio. Yn ystod pob cyfarfod adolygu blynyddol dilynol, hyd nes i'r unigolyn ifanc adael yr ysgol, dylid adolygu'r Cynllun Pontio hwn a'i ddiweddarau. Dylai'r Cynllun Pontio dynnu gwybodaeth at ei gilydd gan amrywiaeth o unigolion ac asiantaethau o fewn yr ysgol, a thu hwnt, er mwyn datblygu cynllun integredig ar gyfer taith yr unigolyn ifanc at fod yn oedolyn. Dylai'r ysgol ddsbarthu'r Cynllun Pontio y cytunwyd arno o fewn 10 diwrnod i'r cyfarfod adolygu hwn.
- 3.3 Dan adrannau 5 a 6 o Ddeddf Personau Anabl 1986, yn Adolygiad Blynyddol Blwyddyn 9 mae'n gyfrifoldeb ar yr Awdurdod Addysg i geisio cael gwybodaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch p'un ai fod unigolyn ifanc sydd â datganiad o AAA yn anabl ac, o bosib, angen gwasanaethau gan yr Awdurdod Lleol wedi gadael yr ysgol. Mae'r gofyniad cyfreithiol hwn yn sylfaen ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- 3.4 Dylai'r ysgol hefyd ymgynghori â gwasanaethau iechyd plant ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill fel seicolegwyr addysg neu therapyddion galwedigaethol, a allai fod â chyfraniad defnyddiol.

4 Pa bobl ifanc sydd angen Cymorth Pontio Amlasiantaeth?

- 4.1 Mae rhai pobl ifanc ag arnynt ddatganiad o AAA yn medru pontio'n foddhaol at fod yn oedolyn, heb fod angen unrhyw gymorth pontio ychwanegol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Gwasanaethau Iechyd. Gyda'r bobl ifanc hyn, mae modd creu eu Cynlluniau Pontio gyda chymorth staff yr ysgol a'u Cynghorydd Gyrfa Cymru. I bob pwrpas, mae eu Cydlynnydd Pontio naill ai'n aelod o staff yr ysgol neu'n Gynghorydd Gyrfa Cymru. Cyfeirir at y math yma o bontio fel 'Pontio Arferol' yn y siart llif yn Atodiad 1.

- 4.2 Fodd bynnag, mae yna rai pobl ifanc ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol na fydd yn medru pontio'n foddhaol at fod yn oedolyn heb gymorth pontio ychwanegol. Mae yna nifer o ffactorau a fedrai ddylanwadu ar hyn. Os oes gan yr unigolyn ifanc weithiwr cymdeithasol a/neu fewnbwn iechyd arbenigol yn barod, mae'n awgrymu bod angen cymorth pontio ychwanegol. Dylai'r gweithiwr cymdeithasol ac unrhyw weithiwr iechyd arbenigol ddod i adolygiadau pontio'r unigolyn ifanc o flwyddyn 9 hyd nes i'r unigolyn ifanc adael yr ysgol, ac fe fydd y gweithiwr cymdeithasol neu'r gweithiwr iechyd proffesiynol arbenigol yn medru bod yn 'Gydlynnydd Pontio' i'r unigolyn ifanc wrth i'r unigolyn ifanc ddod yn oedolyn a gadael yr ysgol. Mae'r Cydlynnydd Pontio'n medru sicrhau bod gan yr unigolyn ifanc Gynllun Pontio Amlasiantaeth, gyda chyfraniadau gan weithwyr proffesiynol eraill fel staff yn yr ysgol a Chynghorydd Gyrfa Cymru.
- 4.3 Os yw'r Ysgol neu Gynghorydd Gyrfa Cymru yn gwybod bod unigolyn ifanc ag anableddau yn mynd i fod angen cymorth pontio ychwanegol, ond nad yw'n cael unrhyw gymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol nac unrhyw fewnbwn iechyd arbenigol ar y pryd, fe fydd yr ysgol neu Gyrfa Cymru yn medru cyfeirio at y Grŵp Pontio Amlasiantaeth lleol i ofyn am gymorth pontio ychwanegol. Arfer gorau fyddai gwneud hyn ymhell o flaen llaw cyn cyfarfod adolygu ysgol nesaf yr unigolyn ifanc, fel bod cyfle i helpu'r unigolyn ifanc baratoi Cynllun Pontio drafft ar gyfer y cyfarfod hwn.
- 4.4 Mae'n bwysig fod yr unigolyn ifanc a'r teulu'n ymwybodol o'r cais am gymorth pontio ychwanegol. Dylid cael caniatâd gan rieni a'r unigolyn ifanc cyn cyflwyno'r cais hwn. Os oes digon o wybodaeth gan yr unigolyn ifanc neu aelodau'r teulu am y broses, dylent fod yn medru ceisio am gymorth pontio ychwanegol eu hunain, yn uniongyrchol i'r Grŵp Pontio Amlasiantaeth.
- 4.5 Fe fydd y Grŵp Pontio Amlasiantaeth yn ystyried ceisiadau am gymorth pontio ychwanegol, ac yn penderfynu a yw'r unigolyn ifanc yn cwrdd â'r 'Meini Prawf Sbardun' ar gyfer yr angen am gymorth pontio ychwanegol.
- 4.6 Efallai y bydd angen cyfeiriadau ar gyfer mathau eraill o gymorth hefyd: er enghraifft cymorth eiriolaeth, camau diogelu (amddiffyn plant), cymorth plentyn mewn angen. Dylid gwneud y cyfeiriadau hyn ar wahân, ac ni ddylid gohirio unrhyw gyfeiriadau brys oherwydd cyfeiriad ar gyfer cymorth pontio.

**5 Y Broses Bontio Amlasiantaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n cwrdd â'r Meini Prawf Sbardun ar gyfer cymorth pontio ychwanegol (Gweler siart llif yn Atodiad 1).
Sylwer bod y llwybr pontio amlasiantaeth y mae Caerffili'n ei ddefnyddio i'w weld yn Atodiad 2.**

- 5.1 Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r bobl ifanc sydd angen adolygiad blynyddol, gan gynnwys y rheiny ym Mlwyddyn 9 ac uwch, ac yn anfon rhestr o'r bobl ifanc hyn at Bennaeth bob ysgol yn ystod tymor yr haf. Mae'r ysgol yn penderfynu ar ddyddiadau'r adolygiad blynyddol ar gyfer pob unigolyn ifanc ag arnynt ddatganiad o AAA, ac unrhyw bobl ifanc ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Gweithredu gan yr Ysgol a fyddai'n elwa o adolygiad blynyddol.
- 5.2 Rhaid i'r ysgol sicrhau bod Gwasanaethau Cymdeithasol ac unrhyw wasanaeth perthnasol arall yn ymwybodol o'r adolygiad blynyddol ac yn cael gwahoddiad i fod yn rhan ohono.
- 5.3 Mae'r ysgol yn medru ystyried y Meini Prawf Sbardun yn Atodiad 2 i asesu p'un ai fod angen cyfeiriad at y Grŵp Pontio Amlasiantaeth ai peidio.
- 5.4 Mae'r Grŵp Pontio Amlasiantaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o faes Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Bwrdd Iechyd a Gyrfa Cymru. Fe fydd y grŵp hwn yn penderfynu a yw unrhyw rai o'r bobl ifanc a gyfeiriwyd yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cymorth pontio amlasiantaeth.
- 5.5 Os yw'r unigolyn ifanc yn cwrdd â'r meini prawf hyn, bydd y Grŵp Pontio Amlasiantaeth yn pennu 'Cydllynydd Pontio' ar gyfer yr unigolyn ifanc. Bydd y Grŵp yn ystyried barn yr unigolyn ifanc ac aelodau'r teulu wrth bennu Cydllynydd Pontio addas. Byddai'r Cydllynydd Pontio'n weithiwr proffesiynol arweiniol a byddai ei rôl yn adlewyrchu pa bynnag bwyslais sydd ei angen ar gyfer cyfnod pontio unrhyw unigolyn.
- 5.6 Os nad oes unrhyw gyfraniad sylweddol gan y Gwasanaethau Iechyd neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fe allai'r Cydllynydd Pontio fod yn Gynghorydd Gyrfa Cymru, yn aelod o staff yr ysgol, neu'n Gydlynnydd Pontio sydd wedi'i neilltuo'n arbennig ar gyfer y gwaith hwn (os oes un ar gael).
- 5.7 Os oes cyfraniad penodol gan y Gwasanaethau Iechyd neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fe allai'r Cydllynydd Pontio fod yn weithiwr cymdeithasol o'r Tîm Plant neu'r Tîm Oedolion, neu'n weithiwr iechyd proffesiynol arbenigol, neu'n Gydlynnydd Pontio sydd wedi'i neilltuo'n arbennig ar gyfer y gwaith hwn (os oes un ar gael).
- 5.8 Yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer AAA, byddai'r ysgol yn ceisio cael barn yr unigolyn ifanc a'r teulu cyn yr adolygiad. Ble nad yw'r "Cydllynydd Pontio" yn aelod o staff yr ysgol, efallai y cytunir i'r cydllynydd ymgymryd â'r elfen hon. Yn yr achosion hynny, bydd y Cydllynydd Pontio'n cwrdd â'r unigolyn ifanc, yn dod i gyswllt â'r rhieni/gofalwyr ac yn trefnu llenwi Cynllun Pontio drafft ar gyfer yr unigolyn ifanc cyn adolygiad blynyddol nesaf yr unigolyn ifanc. Darperir gwybodaeth ar

fformatau perthnasol, yn esbonio'r broses a'i dibenion, ar gyfer yr unigolyn ifanc a'r teulu.

- 5.9 Mae'r Cynllun Pontio'n seiliedig ar wybodaeth gan yr unigolyn ifanc a'r teulu, ac yn anelu at ddarparu trosolwg o'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn ifanc, a'r cymorth sydd ei angen - yn barod ar gyfer y cyfarfod adolygu blynyddol.
- 5.10 Bydd cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd ar y Grŵp Pontio Amlasiantaeth yn nodi gweithwyr iechyd proffesiynol priodol a fydd, efallai, angen darparu adroddiadau neu wybodaeth ychwanegol e.e. staff therapi. Dylai'r staff sy'n gysylltiedig geisio cydlynu'u hymweliadau a'u hasesiadau i atal dyblygu diangen ac apwyntiadau asesu lluosog i'r teulu.
- 5.11 Cwblheir y Cynllun Pontio drafft a chytunir arno gyda'r unigolyn ifanc a'r teulu, a cheisir caniatâd i rannu'r wybodaeth yn y cynllun. Dylid ei anfon at Bennaeth yr ysgol o leiaf 6 wythnos cyn yr adolygiad blynyddol, er mwyn ei ddsbarthu ymhlith gweithwyr proffesiynol eraill.
- 5.12 Ar sail ei wybodaeth o'r unigolyn ifanc, bydd y Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'r Cydlynnydd Pontio a'r unigolyn ifanc, yn penderfynu os oes angen unrhyw wybodaeth / asesiadau ychwanegol gan unrhyw weithiwr proffesiynol y byddai ei fewnbn yn ychwanegu at y ddealltwriaeth o anghenion yr unigolyn ifanc yn ystod y cyfnod pontio.
- 5.13 Dylai unrhyw asesiadau ychwanegol fod yn gryno a dylai fod ganddynt ffocws. Ni ddylent ailadrodd unrhyw wybodaeth arall a ddarparwyd yn flaenorol.
- 5.14 Bydd angen i unrhyw asesiadau neu adroddiadau ychwanegol gael eu llenwi a'u dychwelyd at y sawl sy'n cydlynu'r adolygiad (fel arfer y Pennaeth mewn Ysgolion Arbennig neu'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig mewn ysgolion prif ffrwd) o leiaf 6 wythnos cyn dyddiad yr adolygiad.

6 Adolygiad Pontio (Adolygiad Blynyddol ym mlwyddyn 9)

- 6.1 Bydd y Pennaeth yn coladu gwybodaeth yr asesiad, ac yn ei dosbarthu o leiaf bythefnos cyn y cyfarfod Adolygu. Rhaid i'r Ysgol wahodd y canlynol i ffurfio tîm adolygu:
 - Yr unigolyn ifanc (a all ddewis dod ag eiriolydd neu gefnogwr hefyd)
 - Y rhieni/gofalwyr (a all ddewis dod â chefnogwr hefyd)
 - Aelod o staff yr ysgol
 - Cynghorydd Gyrfa Cymru
 - Gwasanaethau Cymdeithasol
 - Unrhyw unigolyn arall a bennwyd gan y Pennaeth
 - Unrhyw unigolion eraill a nodwyd fel rhai perthnasol – dylai hyn gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r unigolyn ifanc.

7 Cynnwys yr Unigolyn Ifanc

- 7.1 Rhaid gwahodd yr unigolyn ifanc i'r adolygiad. Ble'n bosib, dylid annog yr unigolyn ifanc i ddod i'r cyfarfod adolygu gyda chymorth priodol i alluogi'r unigolyn ifanc i baratoi a chymryd rhan yn effeithiol. Os yw'r unigolyn ifanc yn dewis peidio â dod i'r cyfarfod, dylai gael gwybod am y broses adolygu a dylid ystyried ei farn.
- 7.2 Cytunir ar gamau gweithredu allweddol yn y cyfarfod, a dylid llunio Cynllun Gweithredu gyda manylion yn nodi pwy ddylai fod yn gweithredu'r camau ac erbyn pryd.

8 Y Cynllun Pontio

- 8.1 Mae ffurf y Cynllun Pontio'n medru amrywio yn ôl hoffterau'r unigolyn ifanc a'r ddogfennaeth gyfredol.
- 8.2 Ble'n bosib, dylai'r Cynllun Pontio gynnwys gwybodaeth ynghylch sgiliau cyfathrebu'r unigolyn ifanc, anghenion iechyd a diogelwch, teulu a ffrindiau, diddordebau hamdden ac anghenion cludiant, yr hyn y mae'r unigolyn ifanc am ei wneud ar ôl gadael yr ysgol (addysg, gwaith, hyfforddiant neu weithgareddau eraill), pa gymorth y maen nhw'n debygol o fod ei angen a pha adnoddau ariannol fyddan nhw'n medru eu defnyddio. Mae pwyslais y cynllun yn debygol o adlewyrchu anghenion yr unigolyn ifanc ac arbenigedd y gweithiwr proffesiynol arweiniol sy'n helpu'r unigolyn ifanc i lenwi'r cynllun drafft.
- 8.3 Ar ôl y cyfarfod adolygu, mae'r ysgol yn cynhyrchu dogfen Adolygiad Statudol o fewn 10 diwrnod i'r cyfarfod adolygu, a rhaid ei roi i rieni a'r gweithwyr proffesiynol sydd ynghlwm.
- 8.4 Dylai'r ddogfen Adolygiad Statudol ddod law yn llaw â'r Cynllun Pontio, ynghyd â chrynodeb o'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arno yn y cyfarfod.
- 8.5 Os yw'r unigolyn ifanc ag anabledau yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol neu wedi Gadael Gofal, bydd y Cynllun Pontio'n dod yn Gynllun Llwybr ac yn cael ei adolygu bob 6 mis fel rhan o Broses Adolygu'r Cynllun Llwybr. Yn yr achos hwn, dylai fod gan yr unigolyn ifanc fynediad at Gyngorydd Personol sy'n medru ei helpu i gynllunio'i Gyfnod Pontio a'i Llwybr.
- 8.6 Arfer da yw cysylltu neu gyfuno Adolygiad Blynyddol yr ysgol gydag unrhyw gyfarfodydd adolygu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol (Adolygiad Plentyn Sy'n Derbyn Gofal, Adolygiad Plentyn Mewn Angen, Adolygiad Cynllun Llwybr).

9 Cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion.

- 9.1 Bydd Tîm Plant Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud wrth y tîm Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion perthnasol yn unol â gweithdrefnau mewnol, pan fydd yr unigolyn ifanc yn cyrraedd 14 oed, er mwyn sicrhau trosglwyddiad hwylus at Wasanaethau Oedolion, os yw hyn yn briodol.

- 9.2 Yn yr un modd, dylid dweud wrth weithwyr proffesiynol y gwasanaeth lechyd Oedolion perthnasol er mwyn sicrhau trosglwyddiad hwylus o wasanaethau lechyd Plant.
- 9.3 Mae yna rai pobl ifanc ag anableddau ble nad yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol nac lechyd yn cyfrannu mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. Os yw'n debygol y bydd unigolyn ifanc ag anabledd angen cymorth pontio ychwanegol wrth adael yr ysgol a dod yn oedolyn, gellir eu cyfeirio at y Grŵp Pontio Amlasiantaeth am gymorth pontio ychwanegol. Mae'r unigolyn ifanc yn medru cyfeirio, neu unrhyw aelod o deulu'r unigolyn ifanc, staff yn yr ysgol, Gyrfa Cymru neu unrhyw un arall sy'n adnabod yr unigolyn ifanc. Ar gyfer y cyfeiriad, mae angen caniatâd yr unigolyn ifanc a'r rheiny sydd â chyfrifoldeb rhiant.
- 9.4 Os yw'n debygol y bydd Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ynghlwm, dylai gweithiwr cymdeithasol o'r tîm oedolion fod yn bresennol yn Adolygiadau Pontio'r unigolyn ifanc o flwyddyn 9 hyd nes bod yr unigolyn ifanc yn gadael yr ysgol, i ystyried y ffordd orau o gefnogi'r unigolyn ifanc pan fydd yn dod yn oedolyn.
- 9.5 Os yw'n ymddangos y bydd angen cymorth gofal iechyd parhaus wedi dod yn oedolyn, bydd angen i weithwyr proffesiynol Gwasanaethau Cymdeithasol ac lechyd drafod goblygiadau hyn gyda'r unigolyn ifanc ac aelodau'r teulu ar gam cynnar, i sicrhau parhad yn y gofal. Os oes angen Aseiad Gofal Iechyd Parhaus (GIP), dylid ei drefnu mor gynnar â phosib. Dylai'r aseiad ar gyfer cymhwysedd dan Feini Prawf GIP Oedolion ddechrau yn ystod 16eg flwyddyn yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod modd dod i benderfyniad 'mewn egwyddor' erbyn pen-blwydd yr unigolyn ifanc yn 17eg, fel y nodwyd yn 'Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Fframwaith ar gyfer Gweithredu yng Nghymru'. Bydd angen pennu gweithiwr lechyd proffesiynol priodol a fydd yn medru hwyluso'r aseiad hwn. Dylid dweud wrth y Grŵp Pontio Amlasiantaeth os oes unrhyw broblemau gyda'r broses Asesu hon.
- 9.6 Os yw opsiynau lleoliad arbenigol yn cael eu hystyried er mwyn diwallu anghenion iechyd, addysgol a/neu gymdeithasol yr unigolyn ifanc, bydd angen i'r unigolyn ifanc, aelodau'r teulu a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol o Gyrfa Cymru, lechyd, Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol drafod yr opsiynau hyn er mwyn sicrhau bod yr holl oblygiadau nawdd a phontio'n cael ystyriaeth.

10 Cynllunio'r Cyfnod Pontio ar ôl i'r unigolyn ifanc adael yr ysgol

- 10.1 Os yw'r unigolyn ifanc yn gadael yr ysgol ac yn dechrau mynd i'r coleg, hyfforddiant gwaith-seiliedig, cyflogaeth neu ryw weithgarwch arall yn ystod y dydd, mae'n medru parhau i ddatblygu ei Gynllun Pontio. Bydd y Cynllun Pontio'n cael ei adolygu a'i ddiweddarau os yw'r unigolyn ifanc yn cael cymorth parhaus gan y Cydlynnydd Pontio. Bydd Cynghorydd Gyrfa Cymru, Gweithiwr Cymdeithasol, neu staff yng ngholeg, lleoliad gwaith neu leoliad gweithgarwch dydd yr unigolyn ifanc hefyd yn medru adolygu'r Cynllun Pontio.
- 10.2 Nid yw Adolygiad y Cynllun Pontio yn rhan o'r broses adolygu datganiad statudol mwyach, sy'n dod i ben pan fydd yr unigolyn ifanc yn gadael yr ysgol.

Ond, dylai'r unigolyn ifanc elwa o adolygu'r Cynllun Pontio a diweddarau'r Cynllun Gweithredu.

11 Cwynion ac Anghydfod

11.1 Os yw unigolyn ifanc neu aelod o'r teulu yn anhapus gyda'r cymorth pontio y mae'n ei gael, bydd yn medru cysylltu ag un o'r asiantaethau sy'n darparu cymorth pontio (yr ysgol, y gwasanaeth addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y bwrdd iechyd neu Gyrfa Cymru), neu ysgrifennu at gynrychiolydd o'r Grŵp Pontio Amlasiantaeth yn yr ardal. Mae manylion cyswllt y grwpiau hynny ym mharagraff 12.1 isod.

11.2 Os yw unigolyn ifanc neu aelod o'r teulu yn anhapus gyda chanlyniad penderfyniad gan y Grŵp Pontio Amlasiantaeth, er enghraifft a yw'r unigolyn ifanc yn gymwys i gael Cymorth Pontio Amlasiantaeth ai peidio, neu ba unigolyn fydd yn Gydlynnydd Pontio, yna dylai ysgrifennu at y Grŵp Pontio Amlasiantaeth yn yr ardal.

11.3 Os na fydd yr ymateb i unrhyw gwynion cychwynnol dan baragraffau 11.1 neu 11.2 yn datrys y mater, bydd yr unigolyn ifanc neu aelod o'r teulu'n medru cwyno'n ffurfiol i'r Awdurdod Lleol, a fydd yn pennu pa asiantaeth ddylai ddelio gyda'r gwyn.

12 Am wybodaeth bellach am y Protocol hwn, mae croeso i chi gysylltu â:

12.1 Rhestr o gysylltiadau'r Grŵp Pontio Amlasiantaeth ymhob ardal:

Blaenau Gwent	Damien McCann	01495 322777 damien.mccann@blaenau-gwent.gov.uk
Caerffili	Tina Blake	01443 864631 blaket@caerphilly.gov.uk
Sir Fynwy	Keith Self	01873 735455 keithself@monmouthshire.gov.uk
Casnewydd	Jonathan Griffiths	01633 656656 jonathan.griffiths@newport.gov.uk
Torfaen	Sarah Paxton	01633 648343 sarah.paxton@torfaen.gov.uk

12.2 Adolygir y protocol hwn o bryd i'w gilydd i sicrhau ei fod yn addas at y diben. Dylid riportio unrhyw broblemau yn ymwneud â'r Protocol hwn i'r cysylltiadau a restrir ym mharagraff 12.1.

12.3 Mae rhannu gwybodaeth rhwng pobl ifanc, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn un o'r gofynion sylfaenol a hanfodol er mwyn cynllunio'n dda ar gyfer y Cyfnod Pontio. Rhaid i bawb sy'n gysylltiedig drafod gwybodaeth bersonol mewn ffordd gyfreithlon. Cefnogir gofynion Rhannu Gwybodaeth y Protocol hwn gan gytundebau Rhannu Gwybodaeth ymhob un o'r ardaloedd awdurdod lleol.

Atodiad 1: Proses Bontio Amlasiantaeth ar gyfer Pobl Ifanc ag Anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

Amserlen

CAMAU

Ym mlwyddyn 8, mae'r Gwasanaeth Addysg yn nodi pobl ifanc sy'n barod i gael Adolygiad Blynyddol yn y flwyddyn ysgol ganlyniol (blwyddyn 9) ac yn anfon y rhestr at yr ysgolion ym mis Gorffennaf.

A yw'r plentyn/unigolyn ifanc yn cwrdd â'r 'meini prawf sbardun' ar gyfer y weithdrefn bontio amlasiantaeth lawn?

Ydy

Nac ydy

Ysgol yn anfon cyfeiriadau a rhestr o Ddyddiadau Adolygu at y Grŵp Pontio Amlasiantaeth

Pontio arferol

Grŵp Pontio Amlasiantaeth yn pennu Cydlynnydd Pontio, gan ystyried barn yr unigolyn ifanc ac aelodau'r teulu.

Oes cyfraniad sylweddol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Gwasanaeth Iechyd?

Oes:

Gallai'r Cydlynnydd Pontio fod yn: Weithiwr Cymdeithasol, Gweithiwr Iechyd Proffesiynol neu'n Gydlynnydd Pontio a neilltuwyd yn arbennig (os ar gael)

Na:

Gallai'r Cydlynnydd Pontio fod yn Gynghorydd Gyrfa Cymru neu'n aelod o staff yr ysgol

Ysgol/Cydlynnydd Pontio'n paratoi Cynllun Pontio drafft gyda'r unigolyn ifanc ac aelodau'r teulu, gyda chaniatâd i rannu gwybodaeth, ac yn anfon at y Pennaeth o leiaf 6 wythnos cyn yr Adolygiad Blynyddol

Pennaeth i ofyn am gyngor a phresenoldeb gan bob asiantaeth berthnasol, rhieni/gofalwyr a'r unigolyn ifanc. Pennaeth i goladu'r wybodaeth a'i dosbarthu o leiaf bythefnos cyn dyddiad yr Adolygiad.

Cyfarfod yr Adolygiad Blynyddol. Cytuno ar y Cynllun Pontio a'r Cynllun Gweithredu.

Ysgol i gynhyrchu 'Adolygiad Statudol' yn cynnwys y 'Cynllun Pontio' ac anfon y ddau at yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol o fewn 10 diwrnod i gyfarfod yr Adolygiad.

Adolygu a diweddarau'r Cynllun Pontio'n flynyddol. Gwahodd asiantaethau ychwanegol i'r cyfarfod, fel sy'n briodol.

Gweithwyr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn trefnu trosglwyddo'n amserol, fel sy'n briodol, at y timau oedolion o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd.

Haf
Blwyddyn 8

O leiaf 6
wythnos
cyn yr
Adolygiad
(Blwyddyn
9)

O leiaf
pythefnos
cyn yr
Adolygiad

Cyfarfod
Adolygu

O fewn 10
diwrnod i'r
Adolygiad

Diweddarau'r
cynllun yn
flynyddol

Atodiad 1 – parhad

"Meini Prawf Sbardun" i Ddechrau'r Weithdrefn Bontio Amlasiantaeth Lawn

Nod y Meini Prawf Sbardun yw darparu ar gyfer yr amrywiaeth o bobl ifanc sy'n debygol o fod angen gwasanaethau, cyngor a/neu gymorth sylweddol yn ystod y glasoed ac wedi dod yn oedolion, oherwydd effaith eu hanabledd ar eu teuluoedd a/neu eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae'r meini prawf yn ceisio edrych ar effaith yr anabledd yn hytrach na'r diagnosis feddygol neu'r categori.

Meini Prawf Sbardun ar gyfer Cymorth Pontio Ychwanegol

Pobl ifanc sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd parhaol neu sylweddol ac sydd ag un neu fwy o'r canlynol;

- Lefel uchel o ddibyniaeth ar eraill am anghenion gofal personol neu anghenion eraill.
- Risg amlwg o chwalu o fewn y teulu, oherwydd sefyllfa'r teulu, straen ar y gofalwyr, neu'r dasg o ofalu am yr unigolyn ifanc.
- Anabledd neu gyflwr iechyd ble mae yna risg difrifol o niwed neu anaf i'w hunan neu eraill, gan gynnwys y bobl ifanc hynny sydd heb unrhyw synnwyr o berygl, neu sydd â synnwyr prin o berygl, ac sydd angen cael eu monitro drwy'r amser i'w cadw'n ddiogel.
- Anabledd synhwyraidd sylweddol.
- Mae'r unigolyn ifanc angen gwasanaethau arbenigol heblaw am addysg a'r Gwasanaeth Iechyd Ysgolion.
- Mae'r unigolyn ifanc tu allan i'r awdurdod mewn lleoliad addysg arbenigol.
- Mae'r unigolyn ifanc yn Derbyn Gofal gan yr Awdurdod Lleol, neu'n cael ei ystyried fel 'Plentyn mewn Angen'.

Atodiad 2

Proses Bontio Amlasiantaeth ar gyfer Pobl Ifanc ag Anableddau ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Nghaerffili

5 Y Broses Bontio Amlasiantaeth

Rôl yr Awdurdod Lleol yn y broses bontio a'r adolygiad blynyddol yw dosbarthu rhestr o'r disgyblion sy'n mynd i fod angen adolygiad blynyddol ymhlith yr holl ysgolion a lleoliadau a gofyn i ysgolion ddweud wrthynt beth yw dyddiadau'r adolygiadau blynyddol a fydd yn cymryd lle yn ystod y flwyddyn academaidd.

At ddiben y broses bontio amlasiantaeth, bydd cronfa ddata bontio benodol yn cynnwys pobl ifanc ag arnynt ddatganiad, pobl ifanc ag anghenion cymhleth ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sy'n cael eu haddysgu yn y sir a thu allan i'r sir. Rheolir y gronfa ddata hon gan yr Awdurdod Lleol a chaiff ei defnyddio gan y Panel Pontio Amlasiantaeth i adnabod pobl ifanc sy'n mynd trwy'r cyfnod pontio, a'u tracio. Bydd protocol rheoli data wedi ei gynnwys yn amodau gorchwyl y Grŵp Pontio Amlasiantaeth. Bydd y Grŵp Pontio Amlasiantaeth yn ystyried cyfeiriadau trwy'r broses a ddisgrifir ar ddiwedd y ddogfen hon.

5.1 Y Broses Bontio Cam 1 (Adolygiadau Blwyddyn 8)

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod mai un elfen sy'n rhwystro'r gallu i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y cyfnod pontio yw'r ffaith nad yw'r gweithwyr proffesiynol 'cywir' yn dod i'r cyfarfod pontio cyntaf ym Mlwyddyn 9. Mae hyn yn medru arwain at oedi wrth gyfeirio at asiantaethau priodol, ac, mewn rhai achosion, mae'n golygu nad yw anghenion yn cael eu pennu'n llawn cyn i wasanaethau oedolion gamu i mewn. Er mwyn rhoi sylw i hyn, bydd gofyn i Gydlynwyr Pontio /Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig mewn ysgolion neu leoliadau eraill lenwi profforma Cynllunio'r Cyfnod Pontio i'w gynnwys gyda'r adroddiad ar yr Adolygiad Blynyddol yn dilyn yr Adolygiad Blynyddol ym Mlwyddyn 8. Ar gyfer pobl ifanc a bennwyd sydd ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, bydd gofyn i Gydlynwyr AAA gynnal Adolygiad Cynllunio ar gyfer y Dyfodol a llenwi'r un profforma

Yn dilyn yr adolygiad ym Mlwyddyn 8, bydd yr ysgol yn anfon adroddiad ar yr Adolygiad Blynyddol, gydag argymhellion, a'r profforma a gwblhawyd, at yr Awdurdod Lleol. Bydd yr Adolygiad Cynllunio ar gyfer y Dyfodol a'r profforma pontio yn cael eu dychwelyd ar gyfer pobl mewn grwpiau agored-i-niwed a nodwyd. Caiff y profformâu eu dadansoddi a, ble nodir bod asiantaethau niferus ynghlwm, caiff yr achosion hyn eu cyflwyno i Banel Cynllunio'r Cyfnod Pontio Amlasiantaeth. Bydd y Panel hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o faes Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, y Bwrdd Iechyd a Gyrfa Cymru.

Bydd Panel Cynllunio'r Cyfnod Pontio Amlasiantaeth Blwyddyn 8 yn cwrdd yn flynyddol. Bydd y grŵp yma'n penderfynu a yw unrhyw rai o'r bobl ifanc a gyfeiriwyd yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cymorth pontio amlasiantaeth. Os cytunir ar gyfeiriad unigolyn ifanc, bydd y Panel yn ystyried yr asiantaethau sydd angen bod ynghlwm ar gyfer yr Adolygiad ym Mlwyddyn 9 ac, os yn berthnasol, yn enwebu'r gweithiwr proffesiynol o'r asiantaeth(au) perthnasol i

fynychu. Yn dilyn hyn, caiff yr ysgol wybod canlyniad y Panel, a phwy a enwebwyd i fynychu. Gofynnir i ysgolion ddarparu dyddiad ar gyfer Adolygiad y Cyfnod Pontio erbyn diwedd mis Medi yn y flwyddyn academaidd newydd. Caiff y dyddiadau hyn eu hanfon at bob asiantaeth berthnasol.

5.2 Y Broses Bontio Cam 2 (Blynyddoedd 9- 10)

Bydd yr Awdurdod Lleol yn dweud wrth ysgolion / lleoliadau cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, pa bobl ifanc sy'n mynd i fod angen adolygiad blynyddol a chynllun pontio. Bydd ysgolion eisoes wedi cael gwybod os enwebwyd cynrychiolwyr o faes iechyd neu ofal cymdeithasol i ddod i'r adolygiad a bydd yn eu cynnwys ar y rhestr bresenoldeb. Bydd y Pennaeth neu'r Cydlynnydd Anghenion Addysgol Arbennig yn trefnu cyfarfod yr adolygiad blynyddol a'r cynllun pontio fel y nodwyd yng Nghod Ymarfer AAA Cymru.

Mae fformat y cynllun pontio'n medru amrywio yn ôl anghenion/hoffterau'r unigolyn ifanc a'r ddogfennaeth a ddefnyddir gan yr ysgol/lleoliad (dylai'r cynllun pontio gynnwys gwybodaeth ynghylch sgiliau cyfathrebu'r unigolyn ifanc, anghenion iechyd a diogelwch, y teulu a ffrindiau, diddordebau hamdden ac anghenion cludiant, yr hyn y mae'r unigolyn ifanc am ei wneud ar ôl gadael yr ysgol (addysg, gwaith, hyfforddiant a gweithgareddau eraill), pa gymorth maen nhw'n debygol o fod ei angen a pha adnoddau ariannol fyddan nhw'n medru eu defnyddio. Yn ystod y cyfarfod, cytunir ar gamau gweithredu allweddol a dylid llunio Cynllun Gweithredu yn nodi pwy ddylai fod yn gwneud beth, ac erbyn pryd.

Os yw'r unigolyn ifanc yn 'derbyn gofal' gan yr awdurdod lleol neu wedi gadael gofal, bydd y Cynllun Pontio'n dod yn Gynllun Llwybr ac yn cael ei adolygu bob 6 mis fel rhan o Broses Adolygu'r Cynllun Llwybr. Yn yr achos hwn, dylai fod gan yr unigolyn ifanc fynediad at Gynghorydd Personol sy'n medru helpu gyda'r broses o Gynllunio'r Cyfnod Pontio a'r Llwybr Pontio.

Yn dilyn cyfarfod yr adolygiad blynyddol, caiff yr adroddiad a'r Cynllun Pontio ei anfon ymlaen at yr Awdurdod Lleol i'w prosesu. Os cyfeiriwyd yr unigolyn ifanc ym flwyddyn 8 ar gyfer cyfranogiad amlasiantaeth, cyflwynir canlyniad Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Pontio at Banel Cynllunio ac Adolygu'r Cyfnod Pontio Blwyddyn 9/10. Cyflwynir cyfeiriadau newydd i'r Panel hefyd, i'w hystyried.

Yn ystod Panel Cynllunio ac Adolygu'r Cyfnod Pontio Blwyddyn 9/10, adolygir cyfranogiad parhaus asiantaethau yn y broses bontio ac ystyrir cynnwys achosion newydd. Wedi'r Panel, caiff yr ysgolion wybod beth oedd y canlyniad, ac a fydd cynrychiolydd allanol yn mynychu'r cyfarfod adolygu yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol. Caiff gwasanaethau cymdeithasol oedolion a gweithwyr iechyd proffesiynol oedolion wybod am yr achosion sydd, ar y cam yma, yn debygol o fod angen cymorth ychwanegol wedi dod yn oedolion.

Os oes cyfraniad sylweddol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu Iechyd, bydd y Panel yn argymhell bod yr ysgol/lleoliad yn gweithio'n agos gyda'r asiantaethau hyn, gan ddefnyddio ymagwedd o dîm o amgylch y plentyn/teulu, er mwyn cynllunio, i sicrhau bod yr asesiadau'n cael eu cydlynu. Mewn rhai achosion, ac mewn trafodaeth â'r ysgol a'r teulu, gellid enwebu gweithiwr

cymdeithasol Gwasanaethau Plant, neu weithiwr iechyd proffesiynol arbenigol, fel 'Cydlynnydd Pontio'.

5.3 Y Broses Bontio Cam 3 (Blynnyddoedd 11-14)

Bydd yr Awdurdod Lleol yn dweud wrth yr ysgolion/lleoliadau cyn dechrau'r flwyddyn academaidd, pa bobl ifanc sydd angen adolygiad blynnyddol a chynllun pontio. Bydd ysgolion eisoes wedi cael gwybod os enwebwyd cynrychiolwyr o faes iechyd neu ofal cymdeithasol i ddod i'r cyfarfod ac yn eu cynnwys ar y rhestr bresenoldeb. Bydd y Pennaeth neu'r Cydlynnydd AAA yn trefnu cyfarfod yr adolygiad blynnyddol a'r cynllun pontio fel y nodwyd yng Nghod Ymarfer AAA Cymru. Dylai'r adolygiadau ym mlynnyddoedd 11-14 ganolbwyntio ar adolygu'r Cynllun Pontio a Chynllun Gweithredu'r Cyfnod Pontio.

Yn dilyn cyfarfod yr adolygiad blynnyddol, caiff yr Adroddiad a'r Cynllun Pontio eu hanfon ymlaen at yr Awdurdod Lleol i'w prosesu. Os cyfeiriwyd yr unigolyn ifanc ym Mlwyddyn 9/10 er mwyn cael cyfraniad amlasiantaeth, caiff canlyniad Cynllun Gweithredu'r Cyfnod Pontio ei gyflwyno i Banel Cynllunio ac Adolygu'r Cyfnod Pontio ym mlwyddyn 11/13. Bydd cyfeiriadau newydd hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Panel, i'w hystyried.

Os yw'n ymddangos bod angen cymorth gofal iechyd parhaus wedi dod yn oedolyn, bydd gweithwyr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol proffesiynol ar y Panel Pontio Amlasiantaeth yn gyfrifol am ddweud wrth y bobl berthnasol o fewn eu hasiantaethau fel bod modd trefnu Asesiad Gofal Iechyd Parhaus, os yn berthnasol, yn unol â'r canllawiau yn 'Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Fframwaith ar gyfer Gweithredu yng Nghymru'. Dylid tynnu sylw'r Panel Pontio Amlasiantaeth at unrhyw broblemau gyda'r broses asesu hon.

Os yw lleoliad arbenigol yn ystyriaeth, er mwyn diwallu anghenion iechyd, addysgol a/neu gymdeithasol yr unigolyn ifanc, caiff yr opsiynau hyn eu trafod yn y Panel Amlasiantaeth er mwyn sicrhau bod yr holl oblygiadau nawdd a phontio'n cael eu hystyried. Bydd y Panel Pontio Amlasiantaeth yn enwebu Cydlynnydd Pontio i oruchwylio achosion unigol o'r natur hwn ac i ddod i gyswllt â'r unigolyn ifanc a theulu'r unigolyn, ac unrhyw wasanaethau eraill sydd ynghlwm.

Yn dilyn Adolygiad y Cyfnod Pontio ym Mlwyddyn 11, os yw'r Panel Pontio Amlasiantaeth yn cael gwybod bod yr unigolyn ifanc yn gadael yr ysgol ac yn mynd i fod yn mynychu Coleg Addysg Bellach, bydd y Panel Pontio Amlasiantaeth yn ystyried yr angen i fonitro'r unigolyn yn barhaus ac, os yn berthnasol, yn penodi Cydlynnydd Pontio i oruchwylio'r achos.

Atodiad 2 - parhad: Proses Bontio Amlasiantaeth Caerffili

